**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref CS/02109/13

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Ionawr 2014

Annwyl William

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2013 ynglŷn â 'Deddf Tai Blaenoriaeth a Fforddiadwy Cenedlaethol i Gymru' yn dilyn fy ymateb i'r Pwyllgor Deisebau ar y 12 Tachwedd 2013.

Rwyf wedi nodi'r ohebiaeth newydd gan y deisebwyr yng ngoleuni fy llythyr a'r amrywiol feysydd sydd wedi eu codi. Fe geisiaf gyfeirio at y materion hyn yn eu tro.

Prawf Preswylio Lleol

Mae'r sefyllfa yng Nghymru ynglŷn â Phrawf Preswylio Lleol wedi ei nodi yn y 'Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd'. Mae'r Cod Canllaw wedi ei gyhoeddi o dan adran 169 o ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996") ac mae'n nodi'r fframwaith y mae gofyn i'r awdurdodau lleol roi sylw iddo o ran eu swyddogaethau o dan Ran 6 a 7 o Ddeddf 1996.

Ymgynghorwyd ynglŷn â'r Cod yn 2012 a daeth Cod diwygiedig i rym ar 13 Awst 2012. Roedd y diwygiadau a weithredwyd o ganlyniad i'r ymarfer hwnnw yn atgyfnerthu'r hyblygrwydd sydd gan awdurdodau lleol o fewn y system ddyrannu, er mwyn ateb y galw lleol drwy:

- fabwysiadu blaenoriaethau lleol ochr yn ochr â'r canllaw dewisiadau rhesymol statudol;
- rhoi ystyriaeth i ffactorau eraill ar gyfer blaenoriaethu ymgeiswyr, gan gynnwys amser aros a chyswllt lleol;
- gweithredu polisïau gosod lleol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae'r Cod diwygiedig yn rhoi canllawiau clir ynglŷn â'r hyblygrwydd sydd gan awdurdodau lleol o ran bodloni anghenion tai yn lleol, a phwysigrwydd tryloywder ac atebolrwydd i gymunedau lleol wrth weithredu'r ddeddf. Mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd felly yn y ffordd y maen nhw'n dehongli cyswllt lleol ar bwysau tai yn eu hardaloedd lleol ar draws Cymru.

Rwyf wedi derbyn briff ar ddogfen ymgynghorol Llywodraeth y DU, sy'n nodi eu bwriadau i gyhoeddi canllawiau statudol newydd i helpu awdurdodau lleol yn Lloegr i deilwra eu blaenoriaethau dyrannu, er mwyn bodloni anghenion eu preswylwyr lleol a'u cymunedau lleol. Yng Nghymru, teimlaf fod eglurder a hyblygrwydd yn bodoli eisoes yn y maes hwn yn y "Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd", ac mae'n parhau i adlewyrchu'r dargyfeirio mewn polisi rhwng Cymru a Lloegr. Ond, mae'r maes hwn yn parhau i gael ei adolygu.

Cynlluniau Datblygu Lleol

Ynglŷn â'ch sylwadau am Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLl), fel y'u nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (adran 9.2), dylai amcanestyniadau cartrefi ar lefel awdurdod lleol gan Lywodraeth Cymru fod yn fan cychwyn i awdurdodau lleol asesu eu hanghenion tai wrth baratoi ei CDLl. Dylai awdurdodau lleol ystyried pa mor briodol yw eu hamcanestyniadau ar gyfer eu hardal, yn seiliedig ar bob ffynhonnell o dystiolaeth leol ac yn enwedig eu Hasesiad o'r Farchnad Dai Leol. Wrth gynllunio'r ddarpariaeth dai, dylai awdurdodau lleol hefyd weithio mewn cydweithrediad gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, tirfeddianwyr a grwpiau cymunedol. Os yw tystiolaeth awdurdod lleol yn dynodi lefel wahanol o ddarpariaeth dai, gall hyn fod yn rheswm i wyro oddi wrth amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, cyn belled y gellir dangos fod y dystiolaeth yn gadarn.

Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol yn eu trafodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth dai mewn CDLl, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu mynediad at y bas data a'r meddalwedd angenrheidiol ar gyfer amcanestyniadau'r boblogaeth a chartrefi, er mwyn eu galluogi i wneud rhagor o waith modelu i roi ystyriaeth i amgylchiadau lleol manylach.

Amcanestyniadau Cartrefi

Rydym yn cydnabod canlyniadau amcanestyniadau cartrefi'n seiliedig ar 2008, gaiff eu dyfynnu yn y ddeiseb, fel y rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng StatsCymru.

Mae amcanestyniadau cartrefi'n rhoi amcangyfrif ynglyn a nifer y cartrefi yn y dyfodol ac yn rhoi syniad o'r galw am gartrefi yn y dyfodol. Maen nhw wedi eu seilio ar gasgliadau ynglyn a newidiadau ym maint y boblogaeth ac yng nghyfansoddiad cartrefi. Mae'r casgliadau wedi eu seilio ar batrymau'r gorffennol. Nid ydynt yn rhagolygon ac nid ydynt yn ceisio rhagweld effeithiau polisïau'r llywodraeth yn y dyfodol, na ffactorau eraill, ar faint a strwythur y boblogaeth.

Dylid nodi fod cyfanswm y ffigurau a amcanestynwyd ar gyfer 2011, ddim ond 2.5 y cant yn uwch na'r amcangyfrifon am gartrefi o gyfrifiad 2011. I ryw raddau, mae hyn yn cadarnhau dibynadwyedd y model a ddefnyddiwyd, sydd wedi ei seilio ar ddata o'r ddau gyfrifiad blaenorol (1991 a 2001).

Mae awdurdodau lleol ac eraill sy'n gweithio ar gynlluniau lleol yn ymwybodol o fodolaeth canlyniadau cyfrifiad mwy diweddar 2011 a'r oblygiadau posibl ar gyfer yr amcanestyniadau cartref a gyhoeddwyd yn flaenorol. Cyn derbyn set newydd o amcanestyniadau cartrefi,

mae rhai wedi mynd gam ymhellach a chomisiynu ymchwil fydd yn sail i'r gwaith ar eu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

Ers cyhoeddi'r ffigurau cyntaf o Gyfrifiad 2011 ym mis Gorffennaf 2012, mae ystadegwyr Llywodraeth Cymru wedi gweithio i gynhyrchu set newydd o amcanestyniadau poblogaeth awdurdod lleol ac amcanestyniadau cartrefi, cyn gynted â phosibl. Mae disgwyl i amcanestyniadau cartrefi'n seiliedig ar 2011, gael eu cyhoeddi'n fuan. Bydd yr amcanestyniadau yn rhoi ystyriaeth i ganlyniadau Cyfrifiad 2011 ac yn rhoi sail newydd i gynllunio tymor hir ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Dynododd Cynllun Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ar gyfer 2013-14[1], fod amcanestyniadau cartrefi awdurdod lleol ar fin cael eu diweddaru gan Ystadegwyr Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

<u>Awdurdod Ystadegau'r DU</u>

Mae Awdurdod Ystadegau'r DU[2] yn gorff sy'n gweithredu'n annibynnol ar wahân i'r llywodraeth ac mae'n adrodd wrth Senedd y DU a deddfwyr wedi eu datganoli. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sicrhau fod ystadegau swyddogol yn cael eu cynhyrchu yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Mae'r amrediad eang o ystadegau swyddogol a gynhyrchir gan ystadegwyr[3] Llywodraeth Cymru wedi eu cynhyrchu'n unol a'r Cod hwnnw, ac mae hyn yn cynnwys amcanestyniadau cartrefi'r awdurdod lleol.

<u>Yr Arolygiaeth Gynllunio</u>

Yn olaf, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn asiantaeth weithredol annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac ar yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol, ac mae'n cael ei rheoli gan Weinidogion Cymru i wneud amrediad o benderfyniadau ar eu rhan. Mae'n hyrwyddo gweithredu teg, gonest a diduedd fel gwerthoedd craidd, ac mae penderfyniadau gan yr Arolygiaeth Gynllunio a Gweinidogion Cymru sy'n methu a chadw at y gwerthoedd hynny yn agored i gael eu herio gan y Llysoedd.

Rwy'n hyderus fod hyn nawr yn gosod ein sefyllfa'n glir yng Nghymru, sy'n gwbl seiliedig ar gynllunio lleol i fodloni anghenion tai lleol.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

---

[1] Aar gael yn http://wales.gov.uk/statistics-and-research/about/user-engagement/plans-practices/knowledge-analytical-services-evidence-plan/?lang=en
[2] http://www.statisticsauthority.gov.uk/about-the-authority/index.html
[3] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/?lang=en